ATODLEN 7

DARPARIAETHAU TROSIANNOL AC ARBEDION

# RHAN 3

## Darpariaethau'n ymwneud â diwygiadau i ddeddfiadau penodol

### Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990

**8.** Er bod y Gorchymyn hwn yn diddymu Atodlenni 8 a 9 i Ddeddf 1990, mae'r diwygiadau a wnaed gan yr Atodlenni hynny i Ddeddfau eraill yn dal i gael effaith i'r graddau yr oeddent yn cael effaith yn union cyn i'r Gorchymyn hwn ddod i rym, yn ddarostyngedig i unrhyw ddiwygiadau i'r Deddfau eraill hynny a wnaed gan y Gorchymyn hwn.

### Rheoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr 1999

**9.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys at ddibenion rheoliad 7(11) o Reoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr 1999(**1**).

(2) Pan fo—

(a) adroddiad diogelwch yn cael ei anfon at yr awdurdod cymwys mewn perthynas â sefydliad yng Nghymru;

(b) yr adroddiad diogelwch hwnnw yn cynnwys gwybodaeth sy'n cyfeirio at wybodaeth mewn adroddiad neu hysbysiad arall a anfonwyd at Asiantaeth yr Amgylchedd yn unol â gofynion a osodwyd gan neu o dan unrhyw ddeddfiad; ac

(c) yr adroddiad neu'r hysbysiad arall wedi ei anfon at Asiantaeth yr Amgylchedd cyn y dyddiad trosglwyddo;

yna, ystyrir bod yr adroddiad neu'r hysbysiad a anfonwyd at Asiantaeth yr Amgylchedd wedi ei anfon at yr asiantaeth briodol.

(3) Yn y paragraff hwn, mae i "asiantaeth briodol", "sefydliad", "hysbysiad" ac "adroddiad diogelwch" yr ystyron a roddir i "appropriate agency", "establishment", "notification" a "safety report" yn eu tro gan reoliad 2(1) o Reoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr 1999 fel y'u diwygiwyd gan y Gorchymyn hwn.

### Rheoliadau Defnyddiau Atgynhyrchiol y Goedwig (Prydain Fawr) 2002

**10.**—(1) Mae person sy'n swyddog awdurdodedig at ddibenion Rheoliadau Defnyddiau Atgynhyrchiol y Goedwig (Prydain Fawr) 2002(**2**) yn union cyn y dyddiad trosglwyddo yn cael ei ystyried yn swyddog awdurdodedig wedi hynny yn rhinwedd y ffaith ei fod wedi ei awdurdodi gan y Comisiynwyr a chan Weinidogion Cymru.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn effeithio ar bwerau'r Comisiynwyr na Gweinidogion Cymru i ddirymu, ar y dyddiad trosglwyddo neu wedi hynny, unrhyw awdurdodiad sydd gan berson neu i adnewyddu'r awdurdodiad hwnnw wedi hynny.

(**1**) O.S. 1999/743 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2002/2469, O.S. 2005/1088, O.S. 2008/960, O.S. 2008/1087, O.S. 2009/1595.
(**2**) O.S. 2002/3026 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2006/2530.

### Gorchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) 2005

**11.**—(1) Mae person sy'n arolygydd at ddibenion Gorchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) 2005(**3**) yn union cyn y dyddiad trosglwyddo yn cael ei ystyried yn arolygydd wedi hynny yn rhinwedd y ffaith ei fod wedi ei awdurdodi gan y Comisiynwyr a chan Weinidogion Cymru.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn effeithio ar bwerau'r Comisiynwyr na Gweinidogion Cymru i ddirymu, ar y dyddiad trosglwyddo neu wedi hynny, unrhyw awdurdodiad sydd gan berson neu i adnewyddu'r awdurdodiad hwnnw wedi hynny.

### Gorchymyn Sancsiynau Sifil Amgylcheddol (Cymru) 2010

**12.**—(1) Yn y paragraff hwn—

ystyr "Deddf 2008" ("*the 2008 Act*") yw Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008;

ystyr "Gorchymyn 2010" ("*the 2010 Order*") yw Gorchymyn Sancsiynau Sifil Amgylcheddol (Cymru) 2010(**4**) fel y'i diwygiwyd gan y Gorchymyn hwn.

(2) Mae adran 67 o Ddeddf 2008 yn gymwys i Orchymyn 2010—

(a) fel pe bai cyfnod o un flwyddyn wedi ei roi yn lle cyfnod o dair blynedd yn is-adran (2); a

(b) fel pe bai unrhyw ddarpariaeth yng Ngorchymyn 2010 i roi pŵer i reoleiddiwr i osod sancsiwn sifil ar gyfer trosedd—

(i) wedi ei gwneud o dan neu yn rhinwedd Rhan 3 o Ddeddf 2008; a

(ii) wedi dod i rym ar y dyddiad trosglwyddo.

(**3**) O.S. 2005/2517 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2006/2696, O.S. 2008/644, O.S. 2009/594, O.S. 2009/3020.
(**4**) O.S. 2010/1821 (Cy. 178).